



YSGOL DYFFRYN CONWY

Pennaeth / Head : Miss Elan Davies

e-bost/e-mail : cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.wk

www.ysgoldyffrynconwy.org



22/6/20

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Wrth i ni barhau yn ein cynlluniau ar gyfer ail-agor yr ysgol, rwyf yn awyddus i gynnig diweddariad i chi ar baratodau'r ysgol hyd yn hyn, wrth i ni weithio ar wireddu cynlluniau Llywodraeth Cymru ac ailagor ein drysau ar gyfer ein dysgwyr ar 29/06/20. Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud gan yr ysgol er mwyn sicrhau y bydd modd i ddisgwyr a staff ddychwelyd yn ddiogel ac yn hapus. Fel y gallwch dychmygu, mae'r her yn fawr a'r amser yn gyfyng ond gallaf eich sicrhau y bydd yr ysgol ar agor a bod y tîm yn Ysgol Dyffryn Conwy yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r dysgwyr yn ôl, gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Os nad oeddech wedi ymateb i'n holiadur dychwelyd, neu os oeddech yn ansicr am anfon eich plentyn yn ôl i'r ysgol, mi ddylai eich bod chi wedi derbyn llythyr gennym yn y post yn ystod y diwrnodau diwethaf. Os nad ydych eisoes wedi cysylltu â'r ysgol i gadarnhau, gofynnwn i chi wneud hynny ar frys.

Os wnaethoch chi gadarnhau yn yr holiadur neu wedi hynny eich bod unai yn bwriadu i'ch plentyn ddychwelyd wedi y 29ain neu i gadarnhau na fydd eich plentyn yn dychwelyd, mae llythyr ar ei ffordd i chi hefyd.

Yn y cyfamser mae mwy o wybodaeth i'ch diweddaru. Efallai bydd y wybodaeth yn y ddolen isod i fideo am yr ail-agor gan Awdurdod Lleol Conwy hefyd o gymorth:

<https://youtu.be/HYmWow8KogE>

Byddwn yn eich diweddaru hefyd pan fydd y rhestr cwestiynau ac atebion allweddol wedi ei ryddhau ar safwe Conwy drwy ei rannu ar Trydar.

Yn y diweddariad hwn hoffwn roi amlinelliad i chi o'n trefniadau ni yn Ysgol Dyffryn Conwy. Ond cyn i mi fanylu, hoffwn bwysleisio na fydd ail-agor yn cynrychioli bywyd ysgol cyffredin yn ailddechrau, a bydd y profiad yn wahanol iawn i'r hyn rydym wedi ei arfer. Mae'r cyfnod hwn yn gyfle i ni ail-gysylltu gyda'n dysgwyr ac i ddatblygu arferion da ar gyfer mis Medi drachefn. Yn naturiol, bydd rhai ohonoch yn disgwyl manylder ac atebion nad oes gennyf ar hyn o bryd, ond byddwn fel ysgol yn cyfathrebu gyda chi a'r dysgwyr rhwng heddiw a'r 29ain o Fehefin gan roi diweddariadau i chi. Rydym yn gweithio mewn cyfnod cwbl ddigysail ac mae'n rhaid i mi rybuddio y gall y trefniadau newid eto yn ystod y cyfnod nesaf gan fod canllawiau ac arweiniad cenedlaethol yn newid o ddydd i ddydd.

Felly, yn yr ohebiaeth yma, fy mwriad yw egluro sefyllfa gychwynnol yr ysgol gan ymgysylltu gyda chi eto mewn amrywiol ffyrdd i ychwanegu manylder dros yr wythnos nesaf. Dyma felly gyfres o gwestiynau perthnasol i ni wrth ailagor:

Beth yw'r trefniadau ailagor yn Ysgol Dyffryn Conwy o ran oriau a dyddiau?

- Ar hyn o bryd rhagwelwn y bydd Ysgol Dyffryn Conwy ar agor i ddibenion addysgol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion am bedwar diwrnod yr wythnos. Mae hyn er mwyn darparu digon o amser ar gyfer creu ffenestr o 72 awr lle bydd unrhyw drosglwyddiad o feirws yn peidio, ac yn rhoi amser wedi ei neilltuo i staff ganolbwyntio ar agweddau dysgu o bell sy'n mynd i barhau mor greiddiol i'n darpariaeth.
- Am y tair wythnos, yn cychwyn Mehefin 29ain, bydd disgyblion yn dod i'r ysgol am ddiwrnod yr wythnos. Rydym wedi rhannu y blynyddoedd canlynol yn eu hanner – blwyddyn 7, 8, 8 a 10 a byddwn yn cylchdroi 2 grwp blwyddyn yn ddyddiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer blwyddyn 12 ychydig yn wahanol ac yn cychwyn gyda ffocws ar eu llwybrau dyfodol ac UCAS.
- Mae'r diwrnod ysgol i'r dysgwyr yn cyrraedd am 9:30 gyda cychwyn wedi ei rannu ar gyfer bysus (9.30am), disgyblion sydd yn teithio yn y car gyda rhiant (9.45-10am) a disgyblion sydd yn cerdded/beicio mewn grwpiau bach o'u teulu yn unig (rhwng 10 – 10.15am. Byddwn hefyd yn gorffen y dydd gyda disgyblion sydd yn teithio ar fysus yn ymadael gyntaf (2.30yp), yna disgyblion mewn car gyda rhiant (2.45 – 3y.p.) ac yn gorffen am 3:00 i ddisgyblion sydd yn teithio adref drwy



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales



gerdded/beicio mewn grwpiau bach teuluol. Nid yw ymgynull mewn grwpiau ar y ffordd adref o'r ysgol yn ddiogel gan nad oes modd sicrhau ymbellhau cymdeithasol priodol.

- Bydd y ddarpariaeth dysgu o bell yn parhau yn ystod y cyfnod hwn, wrth i ni i symud i ddatblygu'r dysgu cyfunol a fydd rwan yn cyfuno dysgu wyneb yn wyneb gyda dysgu o bell. Fodd bynnag bydd nifer y pynciau yn wythnosol yn lleihau gan roi sylw i 2 pwnc craidd (llythrennedd a rhifedd) yr wythnos ar gyfer disgyblion blwyddyn 7-10, ynghyd â gwaith pwnc dewis i flwyddyn 9 a 10 a phrosiectau i flwyddyn 7 ac 8 mewn pynciau cyfunol (dyniaethau, celfyddydau, technoleg). Bydd hynny yn cynorthwyo staff a disgyblion i gadw cydbwysedd rhwng y dysgu ar y safle a dysgu o bell.

Sut brofiad fydd hyn i fy mhleintyn yn YDC yn ystod y cyfnod hwn?

- Mae ystafelloedd dysgu YDC wedi eu haddasu i barchu'r rheol pellter 2 fetr yn llawn. Mae capasiti'r ystafelloedd a ddefnyddir yn amrywio o 6-8 disgybl.

- Bydd disgybl yn aros yn yr un ystafell trwy'r dydd ar gyfer y elfennau dysgu. Bydd dysgwyr hefyd yn dychwelyd i'r un ystafell ar gyfer pob un o'u dyddiau yn yr ysgol.

- Bydd llwybr penodol i ddisgyblion gyrraedd a gadael yr adeilad drwy prif fynedfa y ganolfan hamdden. Byddwn yn defnyddio gwahanol ardaloedd o amgylch y safle er mwyn lleihau y defnydd o rannau o'r safle a chynorthwyo mynediad hylaw i'r ardaloedd tu allan yn ystod y dydd.

- Mae gan bob ardal doiledau penodol wedi'u neilltuo ar eu cyfer. Bydd disgyblion angen golchi eu dwylo wrth iddynt gyrraedd a gadael y safle ac ar nifer o achlysuron yn ystod y dydd. Bydd toriadau pwrpasol yn ystod y dydd ar gyfer mynd i'r toiled fesul ystafell. Bydd pwyslais ar cadw pellter cymdeithasol a symud yn ddiogel ar y safle.

- Mae tîm o staff yn ystyried nifer o agweddau wrth lunio grwpiau disgyblion. Mae'r broses o gynllunio'r grwpiau'n gymhleth, ac o ganlyniad, rydym yn gofyn am eich cefnogaeth chi trwy ofyn i chi beidio gwneud ceisiadau i'ch plentyn fod mewn grwpiau gyda dysgwyr penodol eraill. Ar gyfer blwyddyn 7-9 fodd bynnag, rydym wedi cychwyn y cynllunio o amgylch grwpiau cofrestru. Ar gyfer blwyddyn 10 mae grwpiau wedi eu llunio o amgylch y grwpiau pynciau craidd.

- Prif bwyslais y profiadau dysgu fydd gwireddu dyhead Llywodraeth Cymru i Ailgydio, Dal i Fyny, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi; gan flaenoriaethu llesiant ein dysgwyr a'u cefnogi i ymgymryd yn effeithiol â'r dysgu cyfunol ac ymateb i holiaduron disgyblion. Bwriedir cynllunio gweithgaredd yn yr awyr agored, os yw tywydd yn caniatáu, o fewn rhaglen y dydd.

Beth fydd y trefniadau o ran bwyta yn yr ysgol?

- Gofynnwn i ddisgyblion ddod â phecyn bwyd a diodydd gyda nhw i'r ysgol. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd yn bosibl archebu pecyn bwyd gan y ffreutur. Bydd ardaloedd bwyta penodol yn cael eu gosod yn y neuadd a'r ffreutur er mwyn i ddisgyblion fwyta eu cinio mewn grwpiau bach ar gylchdro. Byddent yn cael eu glanhau rhwng grwpiau dros amser cinio estynedig. Bydd amser cinio pob grwp wedi ei gywasgu er mwyn dilyn gofynhion pellhau cymdeithasol a cefnogi cychwyn a diwedd gwasgar i'r dydd. Bydd trefniadau golchi dwylo cyn, ac ar ôl, bwyta yn weithredol. Wrth gwrs ni fydd y ffynhonnau dŵr yn weithredol oherwydd y risg o halogiad, ac felly cynghorir disgyblion i ddod â dŵr eu hunain mewn potel i'r ysgol.

Beth yw'r trefniadau cludiant er mwyn i'm plentyn gyrraedd yr ysgol?

- Er mwyn lleihau'r risg o haint, ac yn unol ag anogaeth Llywodraeth Cymru, rydym yn awgrymu i rieni i ddod â'u plant i'r ysgol a pheidio defnyddio cludiant yr ysgol os yw hynny'n bosibl. Fodd bynnag, os wrth ymateb i'n holiadur mi wnaethoch chi ofyn am drafniadaeth i'r ysgol i'ch plentyn rydym wedi rhannu y wybodaeth hynny gyda'r adran drafniadaeth ac yn ffyddiog y bydd y trafniadaeth hynny ar gael. Pan ddefnyddir cludiant yr ysgol, bydd disgwyl i ddisgyblion gadw at drefniadau pellter cymdeithasol mewn arosfannau bysiau, a chyfrifoldeb y rhieni yw hyn. Yn ychwanegol, bydd cynlluniau eistedd yn cael eu gweithredu ar gyfer cludiant ysgol, (i hwyluso'r cyntaf ymlaen – a'r olaf i ffwrdd) a bydd disgwyl i ddisgyblion eistedd yn eu seddi dynodedig yn unig. Gall methiant i wneud hynny arwain at golli eu lle. Bydd trefn bendant wrth i ddisgwyr gyrraedd a gadael yr ysgol gyda staff yn goruchwyllo'r trefniadau hyn. Rydym yn deall mai 13 disgybl fyddai y mwyafrif ar fws 70 sedd er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol briodol. Ni fydd trefniant tacsï yn weithredol.

- Os wnaethoch chi nodi yn yr holiadur dymuniad i ddod â'ch plentyn i'r ysgol nid oes trefniadau bws wedi eu gwneud. Byddwn yn gweithredu system o aros ar y bysus tra mae disgyblion yn cael eu gadael i'r ysgol drwy'r fynedfa. Bydd yr un trefniant yn ei le ar gyfer disgyblion sydd yn cyrraedd mewn car gyda rhiant – bydd gofyn iddynt ddod o'r car yn eu tro wrth



y brif dderbynfa. Dim ond eich plentyn ddylai ddod o'r car. Bydd disgyblion sydd yn cerdded/beicio i'r ysgol hefyd angen cyrraedd yr ysgol drwy y brif fynedfa a nid y giatiau electronig arferol. Bydd disgwyl iddynt gadw pellter rhyngddynt ac eraill ar y siwrne gan gynnwys ar Ffordd Nebo ac ar hyd y llwybr i'r ysgol.

A fydd darpariaeth ychwanegol i ddisgyblion Bl.10 a 12 gan eu bod ar ganol cyrsiau arholiad?

- Yn ystod y cyfnodau cychwynnol yn yr ysgol bydd Bl.10 a 12 yn canolbwyntio ar pynciau craidd ac agweddau lles a sicrhau ymgysylltiad gyda gyda'r dysgu cyfunol. Yn achos Bl.12 bydd rhaglen bwrpasol i gefnogi gyrfa trwy UCAS hefyd.

- Byddai'n anodd iawn disgwyl i ddysgwyr Blwyddyn 10 a 12 gychwyn yn syth ar waith ffurfiol yn eu cyrsiau dewis. Er nad ydym wedi derbyn manylion am y newidiadau i gyrsiau TGAU a Safon Uwch, rydym yn ymwybodol bod CBAC a Cymwysterau Cymru yn ystyried addasiadau i'r cyrsiau er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn rhesymol i ddysgwyr eu cyflawni. Byddwn yn cysylltu gyda chi'n syth pan gawn y manylion hynny – ac rydym yn pwysu am y wybodaeth yn ddyddiol. Mae hyn yn golygu nad oes modd i'r ysgol gynllunio dysgu cynnwys newydd ar hyn o bryd hyd nes bod arweiniad pellach gan CBAC. Rydym yn gobeithio gallu cynnal rhywfaint o fewnbwn pynciau eraill ar gyfer blwyddyn 10 yn ystod y 3ydd wythnos, fodd bynnag bydd yn anhebyg o fod ym mhob pwnc ar y safle a bydd o amgylch paratoi at Medi. Ar gyfer blwyddyn 12 ein nod yw rhoi mynediad i'r disgyblion i'w pynciau dewis ar y safle, fodd bynnag mae rheoli hyn o fewn rheoliadau cymysgu cymdeithasol a rheoliadau afiechyd yn her.

Beth fydd yn ddisgwyliedig o ran gwisg ysgol yn ystod y cyfnod hwn?

- Deallwn y bydd disgyblion o bosib wedi tyfu allan o'u gwisg ysgol dros y cyfnod clo a bod archebu gwisg newydd yn anodd iawn ar hyn o bryd. Byddwn, fodd bynnag, yn awyddus i ddisgyblion wisgo eu siwmpwr ysgol os ydy hynny yn bosib, ynghyd â dillad cyfforddus, addas ar gyfer peth gwaith tu allan, a sydd yn hawdd i'w golchi ar ôl pob ymweliad i'r ysgol. Gofynnwn am gydweithrediad a chefnogaeth rhieni er mwyn sicrhau gwisg briodol - ni chaniateir topiau cwta, siorts na sgertiau byr iawn na thopiau wedi eu torri'n isel.

Nid wyf wedi cofrestru fy mhientyn i ddod yn ôl. Ydw i'n cael newid fy meddwl?

- Y plant hynny sydd wedi cofrestru i ddychwelyd i'r ysgol yn unig fydd yn cael mynychu oherwydd ni fydd digon o staff nac ystafelloedd â chyfarpar ar gael i wasanaethu rhai hwyr yn ddiogel. Ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw ddysgwr yn yr ysgol sydd heb gofrestru'n swyddogol. Rydym wedi cysylltu â'r rheini oedd yn ansir pan gyflwynwyd yr holiadur neu heb ymateb o gwbl. Os nad ydym wedi clywed gennych erbyn dydd Mawrth y 23ain o Fehefin, ni fyddwn yn gallu gwneud trefniadau ar gyfer eich plentyn.

- Os ydych yn newid eich meddwl ac yn awyddus i gofrestru eich plentyn i ddod i'r ysgol mae hynny'n hollol dderbyniol – OND mae'n rhaid cysylltu'n uniongyrchol gyda ni. Gwneir hyn trwy e-bostio Mr Roger Beech (Pennaeth Cynorthwyol) ar: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk neu drwy ffonio y prif dderbynfa ar 01492 642800. Byddwn yn disgwyl wythnos iawn o rybudd cyn i'ch plentyn gael dychwelyd, er mwyn i'r ysgol allu addasu ein darpariaeth yn ddiogel, gall y ddarpariaeth bosib fod yn fwy cyfyng na'r darpariaeth uchod o ganlyniad hefyd.

A oes ystyriaethau iechyd a diogelwch eraill?

- Ni ddylai unrhyw ddysgwr ystyried dod i'r ysgol os yw'n teimlo'n sâl yn ystod y cyfnod hwn. Mae mwy o wybodaeth yn y llyfryn anwytho, ynghyd a chwestiynau sgrinio i chi ei ystyried CYN anfon eich plentyn i'r ysgol.

- Bydd ardal wedi ei neilltuo yn benodol ar gyfer unrhyw ddysgwr a fyddai'n teimlo'n sâl yn ystod y diwrnod ysgol. Os yw eich plentyn yn teimlo yn sal yn ystod y dydd, byddwn yn cysylltu gyda chi ar frys gan ofyn i chi ddod yn syth i gasglu eich plentyn o'r ysgol.

- Ni ddylai disgyblion ddod ag unrhyw offer neu eiddo ychwanegol gyda nhw i'r ysgol, mae hyn yn cynnwys ffonau symudol a ddylai aros gartref. Yr unig eitemau fydd angen ar y disgyblion yw cinio parod a dwr. Bydd offer ar gyfer gwaith yn y dosbarth yn cael eu rhoi i bob disgybl ar eu ymweliad cyntaf. Byddent angen eu dychwelyd ar eu ail a 3ydd ymweliad hefyd.

- Bydd Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i'r holl staff sy'n rhoi Cymorth Cyntaf, a bydd CDP ar gael i'r staff sydd angen os nad yw'n bosibl cadw'r pellter cymdeithasol.

- Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer salwch disgyblion, argyfwng tân ac ymddygiad disgyblion wedi cael ei addasu i adlewyrchu'r gofynion newydd ar gyfer ail-agor. Disgwylir i ddisgyblion ddilyn y cyfarwyddiadau gan eu athrawon ac o



amgylch y safle er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol briodol. Lle nad yw disgyblion yn gallu dilyn y disgwyliadau hyn, byddwn yn trefnu iddynt adael yr ysgol a mynd adref. Mae hyn er mwyn diogelu pawb ar y safle.

Hoffwn ymddiheuro bod amser wedi mynd heibio ers ein gohebaeth diwethaf a bod yr ohebiaeth hon mor faith, ond fel y gallwch werthfawrogi mae cymaint o wybodaeth yr ydym angen ei rannu â chi. Efallai na fydd ateb i bob cwestiwn yn y llythyr hwn ond mae yn ran o'r cyfathrebu gyda chi fel mae ein cynlluniau yn datblygu. Rydym hefyd yn bwriadu rhannu y wybodaeth canlynol gyda chi yn ystod yr wythnos:

- Llyfryn anwytho i ddisgyblion i'w cynorthwyo i ddeall y wybodaeth uchod;
- Gwahoddiad disgybl i gadarnhau pryd fydd eich plentyn yn dod i'r ysgol;
- Fideo o'r safle gyda gwybodaeth am fynediad, arwyddion a system un ffordd i gynorthwyo eich plentyn gyda'r newidiadau hyn.

Rwyf eisoes wedi pwysleisio ein bod yn gweithredu ar hyn o bryd mewn amodau cwbl unigryw ac mae posibilrwydd yn ddyddiol fod y trefniadau yn gorfod newid o ganlyniad i newidiadau mewn canllawiau cenedlaethol neu ranbarthol. Ond unwaith eto hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch amynedd yn ystod y cyfnod hwn. Hoffwn ddiolch i'r staff sy'n gweithio mor ddygn ar hyn o bryd er mwyn gweithredu ein cynnig ar gyfer ail-agor a sydd yn edrych ymlaen at groesawu ein disgyblion unwaith eto yn ystod y cyfnod ail-agor. Ond byddwn yn gwneud hynny'n gyfrifol ac yn ddiogel bob amser.

Yn gywir, Miss Elan Davies, Pennaeth.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales

